**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
—
**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Judith Paget
Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd/Prif Weithredwr y GIG
Llywodraeth Cymru

10 Rhagfyr 2021

Annwyl Judith

Sesiwn Dystiolaeth ar 17 Tachwedd

Diolch i chi a'ch swyddogion am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 17 Tachwedd. Rwyf wedi rhestru isod y camau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfod:

- Gofal Cymdeithasol Cymru

Cytunodd Albert Heaney i ddarparu manylion ychwanegol am ymgyrch GofalwnCymru. Darparwch dystiolaeth hefyd o'r dangosyddion perfformiad allweddol a ddefnyddiwyd i fesur llwyddiant yr ymgyrch.

- Cyfarpar Diogelu Personol (CDP)

Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn San Steffan wedi gofyn i Lywodraeth y DU gynnal astudiaeth i geisio deall y cysylltiad rhwng prinder CDP a heintiau a marwolaethau. A ydych yn bwriadu cynnal astudiaeth debyg yng Nghymru, ac a ydych yn trafod â Llywodraeth y DU ynghylch canfyddiadau'r adroddiad uchod.

O ystyried cwmpas eang y sesiwn, roedd yn anochel nad oedd digon o amser i godi'r holl faterion yr oeddem wedi'u nodi. Felly, byddwn yn croesawu ymatebion i'r canlynol:

Cyllid

1. A allwch ddarparu manylion am y sefyllfa ariannol fisol ddiweddaraf i gyrff y GIG, a'r rhagolygon cyfredol ar gyfer yr alldro ar ddiwedd y flwyddyn.

2. Sut mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i flaenoriaethu'r £1 biliwn ar draws iechyd a gofal cymdeithasol y mae wedi ymrwymo o'r blaen i'w fuddsoddi i gefnogi adferiad.

## Lefelau stoc CDP

Pan drafodwyd y dystiolaeth a ddaeth i law mewn sesiwn breifat, gofynnodd yr Aelodau am eglurder pellach ynghylch:

3. Y dull y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio i gyhoeddi gwybodaeth am lefelau stoc CDP. Argymhellodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol y dylid gwneud hyn ar sail sgôr RAG yn hytrach na lefelau stoc penodol. A yw Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yr argymhelliad hwn ac a yw'r dull a ddefnyddir yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol ynghylch lefelau stoc?

4. Sut mae'r gwasanaeth iechyd yn sicrhau bod y CDP mwyaf priodol yn cael ei ddarparu ar gyfer pob lleoliad?

Rydym yn dal i bryderu bod y prinder a gafwyd i gyflenwadau CDP priodol yn ystod camau cynnar y pandemig wedi cyfrannu at drosglwyddo COVID-19 mewn ysbytai. Ni chawsom ein hargyhoeddi gan yr esboniadau a roddwyd i ni yn ystod y sesiwn dystiolaeth bod gwersi wedi'u dysgu mewn perthynas â hyn. Rydym yn ceisio sicrwydd pellach y byddai'r GIG yng Nghymru, o ran cyflenwi CDP, yn barod ar gyfer tonnau pellach o'r pandemig hwn neu, yn wir, unrhyw bandemig yn y dyfodol.

## Marwolaethau COVID-19 fesul Byrddau Iechyd

5. Faint o gleifion sydd wedi cael eu heintio gan COVID-19 tra’r oeddent yn yr ysbyty? A allwch nodi'r wybodaeth hon o fis i fis ers dechrau'r pandemig ym mis Mawrth 2020.

6. Faint o farwolaethau, fesul Bwrdd Iechyd, sydd wedi’u priodoli i gleifion a oedd 'yn ôl pob tebyg' neu 'yn sicr' wedi cael eu heintio gan COVID-19 tra’r oeddent yn yr ysbyty?

## Brechu teg

7. Rhowch fanylion am y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r bwlch clir sy'n parhau i fodoli o ran pobl o rai cefndiroedd ethnig sy’n cael brechiadau, ac a yw'r bwlch hwn yn arwain at fwy o bobl o'r cefndiroedd ethnig hynny yn mynd yn ddifrifol wael gyda COVID-19 ac yn cael eu hanfon i'r ysbyty.

## Y Gweithlu Brechlyn

8. Beth mae byrddau iechyd yn ei wneud i "wneud y gorau o’u modelau o ran recriwtio a defnyddio’r gweithlu dros gyfnod yr hydref a’r gaeaf”, fel y dywedwyd yn y diweddariad strategaeth diweddaraf gan Lywodraeth Cymru.

9. I ba raddau y mae byrddau iechyd yn cael problemau wrth sicrhau’r gweithlu sydd eu hangen arnynt i gynnal y broses o gyflwyno'r brechlyn yng nghyd-destun y pwysau ehangach presennol ar y GIG yng Nghymru.

### Materion trawsffiniol

10. A ydych yn ymwybodol o unrhyw broblemau trawsffiniol sydd wedi digwydd oherwydd y gwahanol ddulliau o gyflwyno brechlynnau a systemau TGCh yng Nghymru a Lloegr, ac yn arbennig lle mae data a gofnodir mewn canolfannau brechu yn Lloegr bellach yn llifo i gofnodion meddygon teulu Cymru ar gyfer cleifion sydd wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu yng Nghymru.

Trefniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

Yn ogystal, hoffwn hefyd gael ymatebion ynghylch y meysydd a ganlyn sy’n ymwneud â Threfniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, sydd wedi deillio o'r argymhellion a geir yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021.

Argymhelliad 5 – Rwy'n ymwybodol bod trefniadau recriwtio Aelod Annibynnol eisoes ar y gweill, ond hoffwn gael manylion am y recriwtio ynghyd â’r penodiad, pan gaiff ei wneud.

Argymhelliad 6 – Nod hwn oedd cryfhau rheolaeth o’r rhaglen o wasanaethau arbenigol newydd o'r dechrau i'r diwedd, er mwyn osgoi amserlenni sydd wedi’u gorymestyn. Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd gweithredu Fframwaith Clinigol Cenedlaethol newydd yn helpu i fynd i’r afael â’r problemau, ond nid yw’n darparu dim manylion ar sut y cyflawnir hynny yn ymarferol. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael eglurhad ynghylch y pwynt hwn.

Argymhelliad 7 – Ysgogodd yr argymhelliad hwn Lywodraeth Cymru i adolygu'r model gweithredu ar gyfer Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru o ystyried y gwrthdaro buddiannau cynhenid sydd o fewn y trefniadau presennol. Derbyniodd yr argymhelliad mewn egwyddor, a nododd rôl ar gyfer swyddogaeth arfaethedig Gweithrediaeth y GIG ar gyfer cryfhau'r trefniadau cyfredol. Nododd yr ymateb hefyd fod y meddylfryd o ran Gweithrediaeth y GIG yn parhau i gael ei ddatblygu. A allwch egluro’r cynlluniau ar gyfer Gweithrediaeth y GIG a sut y credir y bydd y cynlluniau hyn yn datrys y materion a nodwyd yn yr adroddiad.

Yn olaf, mewn perthynas â'r adroddiadau a ganlyn gan yr Archwilydd Cyffredinol a drafodwyd yn ystod ein sesiwn dystiolaeth ar 17 Tachwedd, a allwch roi sylw i’r pwyntiau a ganlyn:

Gan gyfeirio at yr Adroddiad Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19, a allwch ddarparu ddiweddariad ysgrifenedig ynghylch y camau sy’n cael eu cymryd bellach mewn ymateb i'r argymhellion, gan gynnwys manylion pellach am y cynllun caffael a'r disgwyliadau y mae Llywodraeth Cymru bellach yn eu rhoi ar gyflenwyr posibl. Dylech gynnwys manylion am y canlyniadau clir sy’n deillio o waith ffrwd waith CDP bwrdd cynghori ar barodrwydd argyfwng y DU.

Ni wnaeth Adroddiad Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru yr Archwilydd Cyffredinol argymhellion penodol. A allwch ddarparu diweddariad ynghylch beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn ymateb i'r materion eraill a nodwyd yn adran olaf yr adroddiad ar "yr heriau a’r cyfleoedd yn y dyfodol" ar gyfer y rhaglen frechu yng Nghymru. Yn benodol, a allwch roi sylw hefyd i’r materion a ganlyn:


- Y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru o ran datblygu cynllun tymor hwy ar gyfer y rhaglen cyflwyno brechlynnau yng Nghymru, yng nghyd-destun cyngor gwyddonol sy'n esblygu a phenderfyniadau gwleidyddol ar ddefnyddio dosau atgyfnerthu a chynnig brechlynnau i grwpiau oedran iau, a darparu brechlynnau COVID-19 ar y cyd â brechlynnau yn erbyn y ffliw.
- I ba raddau y mae trefniadau goruchwylio a llywodraethu rhaglenni wedi'u rhesymoli;
- Dulliau o gynyddu nifer y bobl sy’n cael brechlynnau ymhlith y grwpiau oedran, ethnig a demograffig hynny lle mae’r cyfradd sydd wedi cael y brechlyn yn is;

- Y camau sy'n cael eu cymryd i gynnal gweithlu cynaliadwy a gwydn i ddarparu brechlynnau yng nghyd-destun y pwysau parhaus a chynyddol ar wasanaethau'r GIG; a
- Y strategaethau i sicrhau bod safleoedd addas ar gael ar gyfer brechu torfol pellach, a chamau i sicrhau bod y rhain yn cael eu defnyddio'n effeithlon a chyda cyn lleied o wastraff brechlynnau â phosibl.

Byddwn yn croesawu cael eich ymateb erbyn 31 Ionawr 2022.

Diolch.

Yn gywir,



Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor